WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – **Cyngor Sir Gaerfyrddin**


Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1974A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi cynnal sefyllfa ariannol gynaliadwy hyd yma ond bydd angen iddo barhau i ddatblygu ei ddull o gyflawni arbedion yng ngoleuni pwysau a ragwelir ar y gyllideb.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi cynnal sefyllfa ariannol gynaliadwy hyd yma ond bydd angen iddo barhau i ddatblygu ei ddull o gyflawni arbedion yng ngoleuni pwysau a ragwelir ar y gyllideb 7

Mae strategaeth y Cyngor wedi ei helpu i gynnal sefyllfa ariannol gref hyd yma 7

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi adrodd ar orwariannau mewn rhai adrannau ac ysgolion yr ymdriniwyd â hwy trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn adrannol ond yn 2019-20 mae'n rhagweld gorwariant sylweddol yn erbyn ei gyllideb refeniw net ar y cyfan 9

Cyflawnodd y Cyngor y rhan fwyaf o'i arbedion wedi'u cynllunio ar gyfer 2017-18 a 2018-19 ond mae'n rhagweld y bydd yn cyflawni llai o'i arbedion wedi'u cynllunio ar gyfer 2019-20 10

Mae gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ond mae'n bwriadu gostwng y rhain yn sylweddol dros y ddwy flynedd nesaf i ariannu ei raglen gyfalaf 11

Mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor wedi gwella ac mae'r dreth gyngor fel canran o'r gyllideb refeniw gros wedi cynyddu ar y cyfan dros y blynyddoedd diwethaf 13

Rhagwelir y bydd costau llog cyfalaf y Cyngor fel canran o'r gyllideb refeniw net yn cynyddu gan bod y Cyngor yn bwriadu benthyca arian i ariannu ei raglen gyfalaf 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Roedd y prosiect yn ceisio asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol cynghorau yn y tymor byr a chanolig.

2 Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu ‘dangosyddion’ ariannol o sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â’r canlynol:

- perfformiad yn erbyn y gyllideb;
- cyflawni cynlluniau arbedion;
- defnyddio cronfeydd wrth gefn;
- y dreth gyngor; a
- benthyca.

#### Arddangosyn 1: ynglŷn â’r Cyngor

Mae’r arddangosyn hwn yn nodi peth gwybodaeth gefndir am gyllideb refeniw net y Cyngor, nifer y staff y mae’n eu cyflogi a gwerth ei asedau sefydlog.



**Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn £351m**



**Mae’r Cyngor yn cyflogi tua 9,000 o bobl**




**Roedd asedau sefydlog y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £1,366m**

Ffynhonnell: Gwefan Cyngor Sir Gaerfyrddin

3 Fe gynhaliom ni’r asesiad hwn am ein bod wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau diweddar rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a’r duedd gyffredinol bod adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn lleihau ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau.

Arddangosyn 2: ffynonellau refeniw'r Cyngor

Mae'r siart cylch isod yn dangos faint o arian a gafodd y Cyngor o wahanol ffynonellau cyllid yn ystod 2018-19.




Ffynhonnell: Cyngor Sir Gaerfyrddin

4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Ionawr 2020.

## Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: **Mae'r Cyngor wedi cynnal sefyllfa ariannol gynaliadwy hyd yma ond bydd angen iddo barhau i ddatblygu ei ddull o gyflawni arbedion yng ngoleuni pwysau a ragwelir ar y gyllideb**. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol e:

- mae strategaeth y Cyngor wedi ei helpu i gynnal sefyllfa ariannol gref hyd yma;
- dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi adrodd ar orwariannau mewn rhai adrannau ac ysgolion yr ymdriniwyd â hwy trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn adrannol ond yn 2019-20 mae'n rhagweld gorwariant sylweddol yn erbyn ei gyllideb refeniw net ar y cyfan;

- cyflawnodd y Cyngor y rhan fwyaf o'i arbedion wedi'u cynllunio ar gyfer 2017-18 a 2018-19 ond mae'n rhagweld y bydd yn cyflawni llai o'i arbedion wedi'u cynllunio ar gyfer 2019-20 ;
- mae gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ond mae'n bwriadu gostwng y rhain yn sylweddol dros y ddwy flynedd nesaf i ariannu ei raglen gyfalaf;
- mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor wedi gwella ac mae'r dreth gyngor fel canran o'r gyllideb refeniw gros wedi cynyddu ar y cyfan dros y blynyddoedd diwethaf; a
- rhagwelir y bydd costau llog cyfalaf y Cyngor fel canran o'r gyllideb refeniw net yn cynyddu gan bod y Cyngor yn bwriadu benthyca arian i ariannu ei raglen gyfalaf.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi cynnal sefyllfa ariannol gynaliadwy hyd yma ond bydd angen iddo barhau i ddatblygu ei ddull o gyflawni arbedion yng ngoleuni pwysau a ragwelir ar y gyllideb

## Mae strategaeth y Cyngor wedi ei helpu i gynnal sefyllfa ariannol gref hyd yma

### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

6 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod y lefel debygol o gyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau o ran cyllid a fu'n ddiweddar ac a ragwelir ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig nodi sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn enwedig sut y bydd yn llenwi bylchau a ragwelir yn y cyllid.

#### Yr hyn a ganfuom


7 Canfuom fod strategaeth y Cyngor wedi ei helpu i gynnal sefyllfa ariannol gref hyd yma. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- strategaeth y Cyngor o ran y gyllideb yw caniatáu i gyllid ar gyfer pwysau angenrheidiol/newidiadau a ragwelir yn y galw ddatblygu 'bwlch yn y gyllideb' yr ymdrinnir ag ef wedyn trwy gymysgedd o fesurau effeithlonrwydd, lleihau/cau gwasanaethau, creu incwm neu godiadau yn y dreth gyngor.
- ym mis Rhagfyr 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynnydd o 4.4% yng ngrant cynnal refeniw'r Cyngor ar gyfer 2020-21. Diweddarodd y Cyngor ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig ym mis Ionawr 2020 i gymryd y setliad gwell hwn i ystyriaeth.
- mae'r Cyngor wedi adnabod bwlch o ran cyllid o £16.4 miliwn hyd at 2022-23. Mae'r bwlch hwn yn tybio y ceir cynnydd blynyddol o 2% y flwyddyn yn y Cyllid sy'n dod oddi wrth Lywodraeth Cymru o 2021-22 ymlaen. Mae hyn £8.7 miliwn yn llai na rhagfynegiadau blaenorol o ganlyniad i'r setliad gwella gafwyd ar gyfer 2020-21.
- mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2020-21 yn cynnwys £7.4 miliwn ar gyfer cynigion twf adrannol. Fodd bynnag, o ran y sefyllfa ym mis Ionawr 2020 mae adrannau wedi cyflwyno cynigion twf sy'n gyfanswm o £12 miliwn. Bydd angen i'r Cyngor flaenoriaethu'r cynigion a gafwyd wrth ddyrannu'r cyllid sydd ar gael i adrannau.

- yn gyffredin â chynghorau eraill mae rhai meysydd gwasanaeth wedi gweld gostyngiad sylweddol mewn termau real yn eu cyllideb dros y blynyddoedd diwethaf. Mae capasiti'r meysydd gwasanaeth hyn i barhau i wneud arbedion o un flwyddyn i'r llall mewn termau real gan barhau i ddarparu gwasanaethau'n debygol o fod yn her fawr i'r Cyngor.
- mae'r Cyngor yn caniatáu i adrannau unigol gadw 50% o unrhyw danwariannau yn ystod y flwyddyn i roi anogaeth ar gyfer rheolaeth ariannol darbodus.

### Arddangosyn 3: bwlch o ran cyllid a ragamcanir

Mae'r graff canlynol yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer eleni, a'r tair blynedd ganlynol.




Ffynhonnell: Cyngor Sir Gaerfyrddin.

Ffigyrau 2019-20 o'r Adroddiad i'r Cyngor, 20 Chwefror 2019 – Strategaeth y Gyllideb Refeniw 2019-20 i 2021-22.

Ffigyrau 2020-21 o'r adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol 6 Ionawr 2020 – Strategaeth y Gyllideb Refeniw 2020-21 i 2022-23.

# Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi adrodd ar orwariannau mewn rhai adrannau ac ysgolion yr ymdriniwyd â hwy trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn adrannol ond yn 2019-20 mae'n rhagweld gorwariant sylweddol yn erbyn ei gyllideb refeniw net ar y cyfan

## Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

8 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer. Mae Cyngor sy'n methu â rhagweld gwariant yn gywir a chynllunio'n gywir ar ei gyfer yn wynebu risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a allai beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

### Yr hyn a ganfuom

9 Canfuom fel a ganlyn: dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi adrodd ar orwariannau mewn rhai adrannau ac ysgolion yr ymdriniwyd â hwy trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn adrannol ond yn 2019-20 mae'n rhagweld gorwariant sylweddol yn erbyn ei gyllideb refeniw net ar y cyfan. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- yn 2017-18 a 2018-19 mae'r Cyngor wedi nodi tanwariannau bychain yn erbyn ei gyllideb refeniw net ar y cyfan.
- bu gorwariannau mewn rhai adrannau a defnyddiwyd cronfeydd wrth gefn adrannol i ymdrin â hwy.
- ar y cyfan gwelwyd y gorwariannau mewn rhai gwasanaethau sy'n ymateb i'r galw.
- yn 2019-20 mae'r Cyngor yn rhagweld ar hyn o bryd y ceir diffyg o ran gwariant adrannol o £5 miliwn. Mae £4 miliwn o'r diffyg hwn yn ymwneud ag Addysg a Gwasanaethau Plant a disgwylir gorwariant o £3 miliwn yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion. Mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn gweithio gyda nifer o ysgolion mewn ymgais i adnabod achosion sylfaenol gorwariannau a ragwelir a datblygu cynlluniau adfer ariannol ar gyfer ysgolion unigol lle y bo angen.

Arddangosyn 4: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant ar gyfer cyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y ddwy flynedd ddiwethaf a'r flwyddyn hyd yma o ran y sefyllfa ar 30 Medi 2019.

| | **Cyllideb Wreiddiol y gyllideb refeniw net** | **Alldro Gwirioneddol y gyllideb refeniw net** | **Swm y gwarged/ gorwariant ar y cyfan** | **Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net** |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | £334.2m | £333.5m | Tanwariant o £0.7m | Tanwariant o 0.2% |
| 2018-19 | £345.8m | £345.2m | Tanwariant o £0.6m | Tanwariant o 0.08% |
| 2019-20 | £351.3m | £355.0m | Gorwariant o £3.7m | Gorwariant o 1.0% |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Gaerfyrddin – Adroddiadau monitro'r gyllideb

# Cyflawnodd y Cyngor y rhan fwyaf o'i arbedion wedi'u cynllunio ar gyfer 2017-18 a 2018-19 ond mae'n rhagweld y bydd yn cyflawni llai o'i arbedion wedi'u cynllunio ar gyfer 2019-20

## Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

10 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a lle mae'n ofynnol i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Yr hyn a ganfuom

11 Cyflawnodd y Cyngor y rhan fwyaf o'i arbedion wedi'u cynllunio ar gyfer 2017-18 a 2018-19 ond mae'n rhagweld y bydd yn cyflawni llai o'i arbedion wedi'u cynllunio ar gyfer 2019-20. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- yn 2017-18 cyflawnodd y Cyngor £5.6 miliwn o arbedion yn erbyn targed o £6.9 miliwn.
- yn 2018-19 cyflawnodd y Cyngor £7.392 miliwn o arbedion yn erbyn targed o £8.046 miliwn.
- mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn cyflawni £5.8 miliwn o arbedion yn erbyn targed o £8.9 miliwn. O'r arbedion heb eu cyflawni a ragwelir mae £2.1 miliwn o'r gyllideb ddirprwyedig ysgolion a £391,000 o gyllideb y Gyfarwyddiaeth Cymunedau.

### Arddangosyn 5: arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2018-19 fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed trwy arbedion wedi'u cynllunio yn ystod 2018-19 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd.

| **£8.046m** | **£7.392m** | **£0.654m** | **91.8%** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr arbedion wedi'u cynllunio | Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd | Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd | Canran yr arbedion a gyflawnwyd |

Ffynhonnell: Hunanasesiad Cyngor Sir Gaerfyrddin o Gynaliadwyedd Ariannol

# Mae gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ond mae'n bwriadu gostwng y rhain yn sylweddol dros y ddwy flynedd nesaf i ariannu ei raglen gyfalaf

## Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

12 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig i ariannu mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau hefyd. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb

refeniw sy’n arwain at ostyngiadau ym malansau eu cronfeydd wrth gefn yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.


## Yr hyn a ganfuom

13 Cafuom fod gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ond mae’n bwriadu gostwng y rhain yn sylweddol dros y ddwy flynedd nesaf i ariannu ei raglen gyfalaf. Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor £94.3 miliwn o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy gan gynnwys Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol o £10.4 miliwn yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth 2019.
- mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy’r Cyngor, gan gynnwys ei Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol, wedi cynyddu o £74.9 miliwn i £94.3 miliwn rhwng 1 Ebrill 2016 ac 1 Ebrill 2019.
- roedd cronfa wrth gefn gyffredinol y Cyngor yn £8.8 miliwn ym mis Mawrth 2016. Rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2019 mae hon wedi cynyddu i £10.4 miliwn er bod disgwyl iddi leihau i £9.9 miliwn erbyn 31 Mawrth 2020. Y bwriad yw y bydd y gronfa wrth gefn hon yn aros ar y lefel hon am y ddwy flynedd nesaf.
- Roedd cyfanswm Balansau Ysgolion yn £3.7 miliwn ar 31 Mawrth 2016. Rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2019 roedd hyn wedi gostwng i sefyllfa ddiffyg o £400,000 oherwydd yr angen i ariannu gorwariannau nas cynlluniwyd ar y gyllideb ysgolion ddirprwyedig. Mae disgwyl y bydd dirywiad pellach o £3 miliwn yn y gronfa wrth gefn hon erbyn 31 Mawrth 2020. Mae’r Cyngor yn bwriadu cyflawni gostyngiad o £1 filiwn yn niffyg y cronfeydd wrth gefn hyn yn 2020-21 a 2021-22.
- mae’r Cyngor yn bwriadu defnyddio canran uchel o’i gronfeydd wrth gefn wedi’u clustnodi i helpu i ariannu ei raglen gyfalaf. Mae’r Cyngor yn rhagweld y bydd cronfeydd wrth gefn wedi’u clustnodi’n lleihau i £20.6 miliwn erbyn 31 Mawrth 2022.
- nid oes gan y Cyngor hanes ar y cyfan o wneud defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw.
- mae’r Cyngor yn caniatáu i adrannau gadw 50% o unrhyw danwariannau adrannol mewn cronfa wrth gefn adrannol. Mae rhai gwasanaethau wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn adrannol i fantoli eu cyllidebau yn 2018-19.

Arddangosyn 6: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol, 2018-19

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2018-19 o'i gymharu â'i gyllideb refeniw net ar gyfer yr un flwyddyn.



| £345.8m | £94.3m | 27.3% |
|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o'r Gyllideb Refeniw Net |

Ffynhonnell: Hunanasesiad Cyngor Sir Gaerfyrddin o Gynaliadwyedd Ariannol

# Mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor wedi gwella ac mae'r dreth gyngor fel canran o'r gyllideb refeniw gros wedi cynyddu ar y cyfan dros y blynyddoedd diwethaf

## Pam fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn bwysig

14 Bydd methu â chasglu swm y dreth gyngor sy'n ddyledus i'r Cyngor yn arwain at lai o incwm. Gall hyn yn ei dro gynyddu'r pwysau ariannol ar y Cyngor a'i gwneud yn ofynnol iddo wneud arbedion ychwanegol. Er nad y dreth gyngor yw ffynhonnell cyllid fwyaf cynghorau yng Nghymru, mae'n dal i fod yn ffynhonnell incwm allweddol.

### Yr hyn a ganfuom

15 Mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor wedi gwella ac mae'r dreth gyngor fel canran o'r gyllideb refeniw gros wedi cynyddu ar y cyfan dros y blynyddoedd diwethaf. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor ar gyfer y Cyngor wedi gwella o 97.1% yn 2016-17 i 97.6% yn 2018-19;
- roedd y dreth gyngor fel cyfran o'r gyllideb refeniw gros yn 16.02% yn 2017-18, yn 16.82% yn 2018-19 ac yn 17.3% yn 2019-20; ac
- roedd y Grant Cynnal Refeniw fel cyfran o'r gyllideb refeniw gros yn 49.2% yn 2017-18, yn 50.7% yn 2018-19 ac yn 49.7% yn 2019-20.

Arddangosyn 7: cyfraddau casglu'r dreth gyngor

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos y ganran o'r dreth gyngor a oedd yn ddyledus a gasglwyd gan y Cyngor yn ystod 2018-19.



Roedd yr arian a gasglwyd o'r Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2019 yn **£93.128m** (97.6%) o'i gymharu â debyd casgladwy o **£95.375m**

Ffynhonnell: Cyfraddau Casglu'r Dreth Gyngor yng Nghymru: 2018-19, StatsCymru, Llywodraeth Cymru, 11 Mehefin 2019

# Rhagwelir y bydd costau llog cyfalaf y Cyngor fel canran o'r gyllideb refeniw net yn cynyddu gan bod y Cyngor yn bwriadu benthyca arian i ariannu ei raglen gyfalaf

## Pam ei bod yn bwysig cynnal lefelau benthyca cynaliadwy

16 Gall benthyca fod yn ffynhonnell cyllid werthfawr, er enghraifft i ariannu prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr megis ysgolion neu ganolfannau hamdden newydd. Fodd bynnag, gall cost ad-dalu arian a fenthyciwyd gan gynnwys costau llog gael effaith hirdymor ar gyllidebau refeniw parhaus. Mae cynghorau sy'n methu â tharo cydbwysedd priodol rhwng manteision a chostau benthyca ar y naill law a'u cyllidebau refeniw cyfredol a rhagamcanol ar y llaw arall yn wynebu risg o leihau swm y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Mae benthyca i ariannu gweithgarwch masnachol yn cynnig y potensial i greu incwm ychwanegol i ariannu gwasanaethau'r cyngor; fodd bynnag, gall hefyd ddwyn risgiau sylweddol a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch masnachol.

### Yr hyn a ganfuom

17 Canfuom fel a ganlyn: Rhagwelir y bydd costau llog cyfalaf y Cyngor fel canran o'r gyllideb refeniw net yn cynyddu gan bod y Cyngor yn bwriadu benthyca arian i ariannu ei raglen gyfalaf. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- roedd cyfanswm benthyciadau'r Cyngor yn £416.1 miliwn y mae gan £8.4 miliwn ohonynt lai na blwyddyn nes y byddant wedi'u had-dalu'n llawn o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2019;
- yn ystod 2018-19 cymerodd y Cyngor £20 miliwn o fenthyciadau newydd: mae 98.2% o gyfanswm ei fenthyciadau'n rhai â chyfradd sefydlog;
- £536 miliwn yw terfyn benthyca awdurdodedig y Cyngor, ac ar 31 Mawrth 2019 roedd y Cyngor wedi benthyca cyfanswm o 77.6% o'i derfyn benthyca;
- mae Rhaglen Gyfalaf y Cyngor yn cynnwys cynlluniau i fenthyca £77.3 miliwn arall dros y cyfnod o 2019-20 i 2021-22; ac
- mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd ei gostau llog cyfalaf fel cyfran o'i Gyllideb Refeniw Net yn codi o 5.1% yn 2019-20 i 6.3% erbyn 2021-22.


### Arddangosyn 8: Arian a fenthyciwyd gan y Cyngor

Mae'r arddangosyn isod yn dangos cost yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor fel cyfran o'i gyllideb refeniw net.



**£0m**

Swm y benthyciadau i ariannu buddsoddiadau masnachol



**5.15%**

Cost cyfanswm y benthyciadau fel cyfran o'r gyllideb refeniw net 2018-19

Ffynhonnell: Polisi a Strategaeth Rheoli Trysorlys Cyngor Sir Gaerfyrddin 2019-20, Adroddiad i'r Cyngor 21 Chwefror 2018, Atodiad D.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru